# JONES, HUGH ('Huw Myfyr '; 1845 - 1891), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a bardd

**Enw:** Hugh Jones
**Ffugenw:** Huw Myfyr
**Dyddiad geni:** 1845
**Dyddiad marw:** 1891
**Priod:** Margaret Jones (née Lewis)
**Rhiant:** Elinor Jones
**Rhiant:** Evan Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

mab Evan ac Elinor Jones o Lanfihangel Glyn Myfyr, sir Ddinbych. Bu'n brentis i feddyg yng Ngherrig-y-drudion, ond penderfynodd ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth, ac aeth i goleg y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala yn 1867. Yn 1871 cafodd alwad i nifer o eglwysi yn ac yn agos i Lanrhaeadr-ym-Mochnant (ordeiniwyd ef yn 1873), ac yno y priododd Margaret Lewis. Symudodd yn 1878 i Lanllechid, Sir Gaernarfon, ac oddi yno yn 1890 i Ddinorwig. Ystormus fu ei weinidogaeth yno, oherwydd, er ei fod yn r galluog, yr oedd o dymer anwadal. Bu farw yn sydyn 9 Rhagfyr 1891, yn 46 oed. Ymddangosodd bywgraffiad ohono (gan David Williams), gyda detholiad o'i bregethau, yn 1893. Yr oedd yn fardd o beth bri. Cyhoeddodd sallwyr mydryddol, *Salmydd y Cyssegr*, yn 1885, a chyfrifid nifer o'i farwnadau, yn enwedig y rhai i'w athrawon, y Dr. Lewis Edwards a'r Dr. John Parry, yn rhai da.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Cymru (O.M.E.)*, ii, 129-32

W. Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, iv, 95-7

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)

Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u gweithiau* (1937), 74

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821148


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu